# Y Pwyllgor Menter a Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 29 Ebrill 2015** |
| Amser: | **09.15 – 12.30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2990**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Graham AC (Cadeirydd)**<br>**Jeff Cuthbert AC**<br>**Byron Davies AC**<br>**Keith Davies AC**<br>**Eluned Parrott AC**<br>**Joyce Watson AC** |
| Tystion: | **Lesley Griffiths AC, Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Llywodraeth Cymru**<br>**Andrew Godfrey, Boots a Chonsortiwm Manwerthu Prydain**<br>**Russell Greenslade, Ardal Gwella Busnes Abertawe**<br>**Neil Hemington, Llywodraeth Cymru**<br>**Rhiannon Kingsley, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**<br>**Ojay McDonald, Y Gymdeithas Rheoli Trefi a Dinasoedd**<br>**Kath Palmer, Llywodraeth Cymru**<br>**Antonia Pompa, Ardal Gwella Busnes Merthyr Tudful**<br>**Steffan Roberts, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Marc Wyn Jones (Clerc)**<br>**Martha Da Gama Howells (Ail Clerc)**<br>**Rachel Jones (Dirprwy Glerc)**<br>**Ben Stokes (Ymchwilydd)** |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gwenda Thomas, Dafydd Elis-Thomas, Mick Antoniw a Rhun ap Iorwerth.

## 2 Adfywio canol trefi - craffu dilynol

2.1 Atebodd Lesley Griffiths, Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Kath Palmer, Steffan Roberts a Neil Hemington gwestiynau gan Aelodau o’r Pwyllgor.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu gwybodaeth bellach am yr hyn a ganlyn:

- Nodyn ar nifer yr ymwelwyr â Bargoed, yn dilyn gosod archfarchnad Morrisons yng nghanol y dref.
- Gwybodaeth am y meini prawf a ddefnyddir i ddyrannu cyllid o’r gronfa trechu tlodi, Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, ac eglurhad o ran sut mae’n cyd-fynd â’r polisi ‘canol trefi yn gyntaf’ gan gyfeirio’n benodol at yr enghraifft o’r cyllid a ddarperir ar gyfer Ynys y Bari.
- Nodyn i egluro pam y mae’n ymddangos bod polisi ‘canol trefi yn gyntaf’ Llywodraeth Cymru dim ond yn cael ei roi ar waith yn sgil datblygiadau manwerthu heb ystyriaeth o leoliad swyddfeydd neu wasanaethau a staff awdurdodau lleol.

## 3 Adfywio canol trefi

3.1 Atebodd Andy Godfrey gwestiynau gan Aelodau o’r Pwyllgor.

## 4 Adfywio canol trefi

4.1 Atebodd Russell Greenslade, Antonia Pompa, Ojay McDonald a Rhiannon Kingsley gwestiynau gan Aelodau o’r Pwyllgor.

4.2 Cytunodd Ojay McDonald i ddarparu copi o adroddiad y Gymdeithas Rheoli Trefi a Dinasoedd ar ei hymgynghoriad ar ardrethi busnes pan fydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben.

4.3 Cytunodd Russell Greenslade i ddarparu gwybodaeth bellach am fanteision Ardaloedd Gwella Busnes a gweithgareddau Ardal Gwella Busnes Abertawe.

## 5 Papurau i'w nodi

5.1 Adroddiad gan yr ATCM ar Barcio mewn Canol Trefi (Saesneg yn unig)

5.1.1 Nodwyd y papur gan y Pwyllgor.